Mae holl amrywiaeth Llŷn a'i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'i gynnwys yn y daith hon. Ceir yma lwybrau arfordirol - gogledd a de - y penrhyn; dringfa raddol ar hyd llethrau Mynydd Anelog sy'n cynnig golygfeydd gwych a phanoramig, a dychwelyd drwy gaeau amaethyddol ac ar hyd cwm bychan Afon Daron.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd:** 15 km/9.3 milltir.

**Amcan o'r amser:** 5 awr.

**Map AO:** graddfa 1:25 000 Explorer 253.

**Man cychwyn/gorffen:** Maes Parcio Aberdaron, SH172 264.

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio:** Maes Parcio Aberdaron, lle i 80 car; byrddau gwybodaeth (tâl os nad yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol), LL53 8BE.

**Bws:** Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

**Toiledau:** Aberdaron (wrth y bont).

**Lluniaeth:** Digon o ddewis yn Aberdaron - gwestai Tŷ Newydd a'r Ship; caffis/tai bwyta/cegin pitsa (rhai o'r rhain yn dymhorol).

## Nodwch

- Does dim darnau anodd ar y daith hon, ond mae'r llwybr yn codi'n raddol ar hyd Mynydd Anelog.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad:
  ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch***
  naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf





Cylchdaith


# 10 Aberdaron




## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Gellir cyrraedd y llwybr ar hyd ben rallt i Borth Meudwy o ben pella'r maes parcio - y pen agosaf at y traeth. O Borth Meudwy, dilynwch y nant fechan ar hyd ffordd drol i fyny'r dyffryn at fferm Cwrt. Oddi yno ewch ar draws y caeau, drwy ran o Uwchmynydd ac yna dringo llethrau Mynydd Anelog. Yr ochr draw i'r mynydd, trowch i'r dde gan gerdded ar hyd ben rallt, tua Mynydd Carreg ac ymlaen wedyn nes cyrraedd Traeth Porthor. Troi am y tir yma, gan gerdded drwy'r maes parcio, troi i'r dde a dilyn y ffordd am ychydig cyn troi i'r chwith ar hyd ffordd drol. Pan ddowch at ffordd wledig arall, troi i'r dde am Cyll y Felin, ar draws croesffordd ac yna i'r chwith gan ddychwelyd i'r pentref drwy gefn gwlad braf ac ar hyd dyffryn cul yr afon at hen felin Aberdaron.







## Mannau o ddiddordeb

Mae **Aberdaron** ① yn bentref deniadol gyda'i draeth, ei dai bwyta, ei siopau cynnyrch lleol a'i dai a phontydd llawn cymeriad. Mae'n werth galw ym Mecws Islyn, gyda'i do gwellt, nid yn unig am fara a danteithion cartref, ond i fwynhau'r lluniau a'r mapiau a'r darnau o dreftadaeth sy'n addurno waliau'r caffi. Adeilad hynafol a diddorol yw'r Gegin Fawr, hen dafarn y pererinion.

Galwch heibio **Eglwys Aberdaron** ② - Eglwys Hywyn Sant sy'n llythrennol ar y traeth a'r ddolen olaf yng nghadwyn Llwybr y Pererinion oedd ar eu ffordd i Enlli. Yn ogystal â bod yn eglwys fyw, yn hanesyddol gyda'i phensaernïaeth arbennig, mae hon hefyd yn ganolfan treftadaeth gydag arddangos-feydd diddorol yn olrhain hanes y pererinion a'r cysylltiad gydag Ynys Enlli. Bu'r bardd R. S. Thomas yn ficer yma (1967-78) ac mae arddangosfa yn dathlu'i gyfraniad yma.


Yn y maes parcio, gwelir **Porth y Swnt** ③. Canolfan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw hon, sy'n cynnig profiad o natur a threftadaeth yr ardal.

Hafan gysgodol yn wynebu'r de yw **Porth Meudwy** ④ a dyma'r man traddodiadol i ddal cwch am Enlli. Ar ben hynny, mae'n harbwr prysur i bysgotwyr a chimychwyr y glannau hyn sy'n codi'r cynnyrch lleol y mae galw mawr amdano.

O lwybr Anelog byddwch yn gweld **Ynys Enlli** ⑤. Dyma ynys yr hen fyneich a'r seintiau Celtaidd a chanolfan dreftadaeth awyr agored sy'n gyforiog hefyd o hanesion am yr hen ynyswyr a'u ffordd o fyw. Gellir cael teithiau am y diwrnod i'r ynys drwy gysylltu â Colin Evans, cychwr Enlli (07971 769895; www.bardseyboattrips.com).

Traeth braf gyda'i faes parcio ei hun (eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yw **Porthor** ⑥. Enwog am ei longddrylliadau a'i draddodiad smyglo!

Allan yn y bae mae **Ynysoedd Gwylan** ⑦ ac ar olau arbennig, gellir gweld i lawr ar hyd Fae Ceredigion hyd at sir Benfro. Mae adar mudol yn galw heibio trwyn y pentir yn eu gwahanol dymhorau ac mae morloi i'w gweld yma'n gyson.



This walk covers all the diversity of Llŷn and its Area of Outstanding Natural Beauty. You will discover the peninsula's coastal paths - both north and south, embark on a gradual climb along the slopes of Mynydd Anelog which offers fantastic panoramic views, before returning through agricultural farmland and along the small valley of Afon Daron.

## Walk details

**Approx. distance:** 15 km/9.3 miles.

**Approx. time:** 5hrs.

**OS Map:** 1:25 000 scale Explorer Map 253.

**Star/finish:** Aberdaron car park, SH172 264.

## Access and amenities

**Parking:** Aberdaron car park, 80 spaces; heritage boards (payment required if not National Trust members), LL53 8BE.

**Bws:** Llŷn Coastal Bus service: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

**Toilets:** Aberdaron (by the bridge).

**Refreshment:** Plenty of choice in Aberdaron – the Tŷ Newydd and Ship hotels; cafés/restaurants/pizza house (some are seasonal).

## Please note

- There are no difficult phases to this route, but there is a gradual ascent up the slopes of Mynydd Anelog.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf

①



Snowdonia
Mountains and Coast

# 10 Aberdaron Circular walk





## Walk directions

The path along the top of the hill to Porth Meudwy can be reached from the furthest end of the car park – the end closest to the beach. From Porth Meudwy, follow the small stream along a cart track up the valley to Cwrt farm. From here, cross the fields, through part of Uwchmynydd, then climb the slopes of Mynydd Anelog. On the other side of the mountain, turn right, walk along the top of the hill towards Mynydd Carreg and continue until you reach Porthor beach (also referred to as *Whistling Sands* in English). Here, turn inland through the car park, turn right and follow the road for a while before turning left along a cart track. When you come to another lane, turn right towards Cyll y Felin, across the crossroads and then left, returning to the village through pleasant countryside along the river's narrow valley to Aberdaron's old mill.

②



⑤



④



## Points of interest

**Aberdaron** ① is an attractive village, with its beach, restaurants, shops selling local produce and its charming houses and bridges. Becws Islyn, with its thatched roof, is well worth a visit, not only for its homemade bread and delicacies, but also to enjoy the pictures, maps and pieces of heritage adorning the café's walls. Gegin Fawr is an ancient and interesting building which used to be a pilgrims' inn.

Call in at **Aberdaron Church** ② - Eglwys Sant Hywyn, which is literally on the beach and was the last leg of the Pilgrims' Trail to Bardsey Island, or *Ynys Enlli* as it is known in Welsh. As well as being a working church and historically important because of its distinctive architecture, it is also a heritage centre with interesting exhibitions tracing the history of the pilgrims and the connection with Bardsey. The poet RS Thomas was a vicar here (1967-78) and the church houses an exhibition celebrating his contribution to the area.

At the entrance to the car park, you will see **Porth y Swnt** ③. This is a National Trust Centre which allows you to experience the nature and heritage of the area.


**Porth Meudwy** ④ is a south-facing sheltered haven and is traditionally the place to catch the boat over to Bardsey. It is also a busy harbour for the local fishermen and lobster-potters, where the highly sought-after local produce is landed.

From the Anelog path, you'll see **Bardsey Island** ⑤. This is the island of the old monks and Celtic saints and is now an outdoor heritage centre overflowing with tales of the old islanders and their way of life. Day trips to the island can be arranged by contacting Colin Evans, the Bardsey boatman (07971 769895; www.bardseyboattrips.com).

**Porthor** ⑥ is a beautiful beach with its own car park (property of the National Trust), and is famous for its shipwrecks and smuggling tradition!

Out in the bay lie **Ynysoedd Gwylan** ⑦ which, in the right conditions, provide views over Cardigan Bay as far down as Pembrokeshire. Migratory birds pass the nearby headland at then turn of the seasons, and seals can often be seen here.

⑥



**www.visitsnowdonia.info**